



Y NEGESYDD

HYDREF 2020

GAIR GAN Y GWEINIDOG

CASGLU A PHLANNU

“Tra mae'r byd yn bod, bydd amser i blannu a chasglu'r cynhaeaf; bydd tywydd oer a thywydd poeth, haf a gaeaf, nos a dydd.”

(Genesis 8 : 22)

Gofynnodd Iesu, “Sut beth ydy teyrnasiad Duw? Sut alla i ei ddisgrifio? Mae fel hedyn mwstard yn cael ei blannu gan rywun yn ei ardd. Tyfodd yn goeden, a daeth yr adar i nythau yn ei changhennau!”

(Luc 13: 18,19)

I ni, mis Hydref yw'r adeg rydym yn dathlu casglu'r cynhaeaf a rhoi diolch am holl haelioni Duw i ni ym myd natur ac am y bwyd ar ein byrddau. Cawsom fwy o gyfle nag erioed dros y cyfnod clo i werthfawrogi'r greadigaeth naturiol o'n hamgylch ni a chlywed yr adar yn gliriach pan oedd sŵn ein traffig a'n ffwddan wedi distewi. Am y tro cyntaf eleni, mi fentres i dyfu tomatos. Wedi i mi eu derbyn fel planhigion ifanc, roedd plaser i'w gweld yn tyfu, yn blodeuo, yna peli bach gwyrrdd yn ffurfio, yn tyfu ac yn cochi.

Daeth dipyn o afalau ar y coed eleni hefyd (*a gwynt Clynog yn eu pigo braidd yn gynnar!*). Aeth bagiad i Antur Waunfawr i greu sudd a seidr ac mi wn i am sawl gweithiwr yn yr **Antur** gyda chysylltiadau ag Emaus sydd yn falch o fod yn ôl yn eu gwaith! Gwn fod nifer o hen lawiau o blith ein haelodau wedi bod yn tyfu a mwynhau pob math o bethau o'r ardd. Wnes i ddim llwyddo tyfu llawer o ffrwythau eleni ond roedd pob un yn gymaint mwy blasus na rhai siop ac yn werth oedi drosto a'i fwynhau. Os cawsom lai o bethau yn ddiweddar, llai o dripiâu siopa, llai o gyfleoedd i weld y teulu, efallai bod ein gallu i'w gwerthfawrogi wedi cynyddu, a'n gallu i roi diolch.

Ond beth am gynhaeaf ysbrydol y misoedd diwethaf. Sut y mae Duw wedi eich cynnal chi? Drwy gyfrwng pa bobl a phethau mae ef wedi eich helpu chi? Sut mae anawsterau'r cyfnod clo wedi newid eich meddwl am yr hyn sy'n bwysig? Ym mha ffyrdd ydych chi'n mynd i newid eich blaenoriaethau a'ch gweithgareddau o hyn allan

Byddai hi'n drueni llithro'n ôl i hen batrwm ac anwybyddu'r cyfleon dysgu a gawsom.

Mae'r Hydref yn ogystal ag yn amser diolch, hefyd yn gallu bod yn amser plannu. Yr wythnos diwethaf bûm yn plannu bylbiau tiwlips. Fel y gwelwch chi o'r llun ar dudalen 2, does 'na ddim byd i'w weld yn y potyn ond pridd gan fod y bylbiau'n ddwfn yn y pridd. Dros y gaeaf byddant yn mynd drwy fath o broses o farw i ddod yn fyw eto. Dwi wedi plannu'r bylbiau fel gweithred o ffydd ac i atgoffa fy hun o'r aros disgwylgar fydd yn rhaid i ni i gyd ei wneud cyn daw pethau'n well a brechiad yn cael ei ganfod a'r Covid yn clirio o'r tir. Pwy a wŷr erbyn i'r planhigion bach wthio eu ffordd drwy'r pridd a blodeuo na fydd pethau dipyn yn well arnom. Rhaid i ni aros yn llawn gobaith gan ymddiried yn Nuw.

Ar hyn o bryd mae bywyd ein heglwys ynghudd. Petai rywun yn pasio'n hadeilad, fydden nhw ddim yn gweld fawr o arwyddion o fywyd. Ond mae ein heglwys yn fyw ond mae'n anweledig, yn mynd drwy broses o gael ei thrawsnewid, yn barod i wthio ei phen drwy'r pridd, ac ymddangos mewn ffordd fwy gweladwy a chyhoeddus eto. Yn y cyfamser, rhaid i ni ddal i dderbyn maeth a dŵr fel eglwys a hynny drwy oedfaon ar zoom, ar bapur a thros y We ac yn y Capel pan mae hi'n ddiogel i wneud. Rhaid i ni hefyd ddal ati i gadw cysylltiad drwy alwadau ffôn a **phaned a sgwrs zoom**.


Rydym wedi derbyn gwahoddiad i fod yn rhan o drafodaeth ledled Cymru ar zoom i weld sut y medrwn ymuno gyda Duw yn ei genhadaeth o gariad i'r byd a byddwn yn edrych ymlaen at rannu'r syniadau ddaw o'r trafod gyda'r eglwys gyfan.

Bendith Duw arnoch chi a'ch teuluoedd!

Caerol M Jones



Y TIWLIPS WEDI EU PLANNU



ANFON COFION

Anfonwn ein cofion at Nesta Williams, Cae Garnedd. Mae Nesta wedi bod braidd yn anhwylys yn ddiweddar.

AMSER DIGON HELBULUS

Amser digon helbulus gafodd rai o ieuenctid Emaus yr haf yma oherwydd yr holl ansicrwydd wrth ddisgwyl am ganlyniadau eu arholiadau.

Dyna sut oedd hi ar Medi, merch Siân a Tomos Morgan. Mae hi yn fodlon iawn ei byd erbyn hyn wrth ddechrau ar ei chwrs ym Mhrifysgol Caerdydd. Pob hwyl iddi.

Mae Aaron, mab Catrin Elis Williams, yntau wrth ei fodd yn dechrau yn y chweched dosbarth yn Ysgol Tryfan.

CODI PAC

Gyda hyn, bydd Awen, merch hynaf Carys a Mark Edwards yn cychwyn am Lundain. Apwyntiwyd Awen yn Ymchwilydd Cynorthwyol i Gomisiwn y Gyfraith.

Bydd yn gweithio i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar brosiectau'n ymwneud a datganol.

Hwyl fawr iddi ar y gwaith arbennig yma.

Y LLWYBR DARGANFOD

Dewch i ymuno gyda chriw ledled Cymru sy'n trafod Cenhadaeth Eglwys Iesu Grist heddiw ar zoom. Mae Undeb Bedyddwyr Cymru wedi creu'r hyfforddiant Cenhadol yma mewn partneriaeth gyda **FORGE Missional Training Network**.

Rhwng nawr a'r haf bydd 8 sesiwn yn trafod pynciau fel *Duw Cenhadol*, *Pobl Genhadol*, *Caru ein cymdogion mewn Cenhadaeth*. Nid meddwl am genhadaeth yn nhermau trefnu ymgynghoedd arbennig, ond byw a gweithredu cenhadaeth Duw ym mhopeth a wnawn.

Bydd pob sesiwn yn cynnwys addysgu, ystafelloedd ar gyfer grwpiau trafod ac ymgysylltu ymarferol.


Byddwn yn rhannu'r hyn sy'n codi yn y trafod gyda'r eglwys gyfan wrth fynd ymlaen. **Bydd y cyfarfod cyntaf ar Nos Fawrth Hydref yr 20fed am 7.**

Am fwy o fanylion, cysylltwch gyda'r gweinidog neu gydag Eleri Lloyd Jones am sgwrs. Os ydych am fod yn rhan o'r cynllun, wnewch chi gofrestru gydag Eleri Lloyd Jones erbyn Hydref y 10fed fan bellaf, os gwelwch yn dda.

AR Y CYFRYNGAU

Wrth wrando ar y radio neu wlyio'r teledu byddwn yn aml yn clywed neu'n gweld rhywun â chysylltiadau ag Emaus. Clywyd Elin, merch Valerie Elis, ar **Munud i Feddwl** bob bore Gwener yn ystod mis Awst. Gwelwyd Lloyd, gwr Casi, o eglwys Clynog ar raglen **Dechrau Canu** yn sôn am bwysigrwydd yr eglwys hynafol honno ar y bererindod i Enlli.

Buasai Radio Cymru dipyn tlotach heb gyfraniadau clodwiw Dewi Llwyd i'r rhaglen **Dros Ginio** a'i raglen ei hun ar fore Sul.



CYFARFOD

'Paned a Sgwrs'

dros Zoom

rhwng 3pm a 4pm

Pnawn Mawrth, 29 Medi

SWYDD NEWYDD

Mae Tomos, mab ieuengaf Casi, yn mwynhau wrth gynefino â'i swydd newydd fel cymhorthydd dosbarth yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy.

Mae plant yn elwa'n fawr o gyfraniad cymhorthydd.

Pob hwyl iddo wrth ei waith.

DYMUNO'N DDA

Dymunwn yn dda i Jane Williams, Maes Mawr. Mae Jane yn gobeithio dechrau ar driniaeth yn fuan.

Mae hi bob amser yn barod ei chymwynas ac yn parato'r bwrdd ar gyfer y cymundeb mor ofalus.

GWELLA

Mae'n braf deall bod Wil Parry yn gwella ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

MEDDWL AMDANOCH

Rydym yn meddwl yn dyner am ein aelodau o Emaus - Beryl Davies, Bet Eirug Davies a Muriel Edwards, sy'n derbyn gofal mewn Cartrefi cyfagos.

LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Branwen Davies, Caerdydd, ar ei phenodiad yn Ddarlithydd Drama yn yr Adran Cerdd, Drama a Pherfformio ym Mhrifysgol Bangor. Mae hi eisoes wedi dechrau ar ei swydd newydd ond ar ffurf ddigidol ar hyn o bryd.

Bu Branwen yn gweithio gyda chriw o ieuenctid Emaus ddechrau'r haf a chrewyd cyflwyniad ganddynt wedi'i seilio ar thema 'Black Lives Matter'. Cafodd ei lansio yn ddigidol ym mis Gorffennaf eleni.



DATHLU DIOLCHGARWCH

Oherwydd y cyfyngiadau, fydd ddim modd i ni ddathlu Diolchgarwch yn y ffordd arferol, ond nid yw hynny yn golygu na chawn ni ddathlu.

Bydd ein trefniadau yn cynnwys ffyrdd y gallwn ni rannu bendithion Duw gyda'r rhai mwyaf difreintiedig yn ein byd.

Rydym wrthi'n ymgynghori gyda phobl o bob oed beth fydd y ffordd orau i wneud hyn fel eglwys a daw gwybodaeth atoch yn fuan

CYDYMDEIMLO

Yn drist iawn, collodd tri o'n haelodau eu chworiydd yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn yn ddwys a chi yn eich hiraeth a'ch galar. Bu farw Jane, chwaer Bet Eirug Davies, yn Llanberis. Collodd Branwen Jarvis ei chwaer, Lowri, yn Llanfairynghornwy, a bu farw Haulwen, chwaer Eurfryn Davies, yn ardal y Coed Duon.



ATEB I BOS AWST/MEDI 2020

CIWIO DAU FETR

Hyd y ciw yw 40 metr.



POS HYDREF 2020

AILAGOR Y CAPEL

*Mae Ynyr, William ac Astra
yn edrych ymlaen at
ddod yn ôl i'r capel
ond gwell gan*

*Lloyd, Miriam a Rita
y trefniant Zoom.
Beth yw barn Elinor?*

Bydd yr ateb yn rhifyn Tachwedd.



TRAIDCRAFT

NEWYDDION TRAIDCRAFT



Rydym wedi llwyddo i gyflawni llawer o archebion yn ystod y misoedd diwethaf.

Diolch i bawb fu'n cefnogi, ac yn arbennig i Dilwen am ddosbarthu'r nwyddau, a derbyn y pres, drwy gyfnod y clo. Rhannwyd yr elw fel arfer ym Mis Awst. Rhoddwyd £100 yr un i'r BMS a Cymorth Cristnogol, a £150 i Traidcraft Exchange.

Ar hyn o bryd bydd yr un drefn yn parhau, ond er mwyn hwyluso'r gwaith, byddai'n dda cael eich archebion ar ddechrau pob mis os yn bosib.

Mae catalog yr Hydref wedi cyrraedd, ac fe fydd cyflenwad ar gael.

Hefyd, bydd modd archebu cardiau Nadolig fel arfer. Daw taflen i chi amdanynt yn fuan.

Diolch i chi am ddal i gefnogi siop Traidcraft yn yr amser anodd yma.

Catrin


Y GENHADAETH

CYFRANIAD



Anfonwyd siec am £100 at waith y BMS gyda'r ffoaduriaid yn Libanus, gyda diolch i Catrin Evans am y rhodd yma - ffrwyth llafur gwerthu nwyddau Traidcraft.

Mae'r gymdeithas wedi ymateb i argyfwng Cofid19 trwy gydweithio â phartneriaid mewn gwahanol rannau o'r byd. Thema Diolchgarwch y BMS eleni yw ymestyn gwaith meddygol yr ysbyty yng ngwlad Chad.



DYDD GWEDDI CHWIORYDD Y BEDYDDWYR

Yn arferol, byddwn yn cyfarfod ar y pŵn Llun cyntaf yn Nhachwedd ond oherwydd Cofid 19, ni fydd hynny'n bosib y tro yma.

Yn ystod y cyfarfod, byddwn yn gwneud y casgliad blynyddol at Chworydd Bedyddiedig y Byd ac felly, o dan yr amgylchiadau eleni, gofynnir yn garedig i'r Chworydd anfon neu roi eu cyfraniad i Siân Arwel Davies, Gwêl y Don, Lôn Brynteg, Llandegfan, Ynys Môn, LL59

5UA, neu Dilwen Lloyd Jones, Eglwys Emaus, er mwyn inni ei anfon ymlaen at Hazel Williams, Trysorydd y Chworydd.

Siân Arwel Davies

OEDFAON HYDREF

Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn gan aelodau'r gynulleidfa i'r oedfa a gynhaliwyd yn Emaus ar 20 Medi. Canmolwyd yr elfennau diogelwch, y naws hyfryd dan arweiniad ein gweinidog, cyfraniad arbennig yr organ mewn oedfa heb gân, a chyfle i gymdeithasu ar y diwedd gan gadw at y rheol ddau fetr yn y maes parcio.

Dysgwyd hefyd ambell wers o'r profiad. Gan fod y rheoliadau yn newid bron yn ddyddiol nid yw'n bosibl inni gynllunio ymhell ymlaen llaw. Y bwriad, ar hyn o bryd, yw cynnal yr oedfa nesaf yn Emaus ar fore Sul, 4 Hydref. Fe'ch gwahoddir i roi gwybod i'r Ysgrifennydd neu un arall o'r swyddogion os ydych yn bwriadu bod yn bresennol yn yr oedfa honno. Os bydd unrhyw newid i'r trefniadau yn y cyfamser byddwn yn cylchredeg manylion am hynny trwy'r dulliau arferol.

Gareth Ffowc Roberts

Ysgrifennydd

ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com

Gwylan yn nythu ar y tir o flaen Emaus



AR BEN Y BYD!

Mae'n debyg mai felly
y teimlai Hedd,
mab Alison Carden,
pan ofynnodd i'w
gariad, Joanna
ei briodi a hwythau
newydd gyrraedd
copa Ben Nevis
- a hithau'n cytuno!

Un o Scarborough
ydy Joanna -
hithau'n feddyg
yng nghyffiniau Leeds,
fel Hedd ei hun.



Y Gwaw

CADW'N BRYSUR.

Yn ystod y misoedd diwetha mi aeth rhai o aelodau Emaus ati'n fwy egniol nag arfer i wneud pob math o weithgareddau, cael trefn yn yr ardd, tyfu tomatos, cael mwy o drefn yn y tŷ, gwau, gwnio a hel achau'r teulu.

Cafodd rhai sy'n aelodau o Ferched y Wawr, Bangor, gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol efo Cwmni'r Fran Wen.

Cyfansoddodd Valerie Ellis alaw hyfryd - alaw i godi'r galon a rhoi gwên ar wyneb yn ystod cyfnod digon rhyfedd. Fe es i ati wedyn i feddwl am eiriau. Cawsom lawer o hwyl wrth y gwaith. Gobeithio y cewch chi, ddarlennenwyr y Negesydd hwyl ar ei chanu.

Ann Roberts

gerianu gan
Ann Roberts

Deunod y Gwaw

y geraduriaeth gan
Valerie Ellis

Giocoso

Daw heulwen McHeffth i'n Korni i gyd A

deunod y gwaw fach I'w chlywed yn glir yn at serio ddyr hir wrth

hedfanwben y do-lydd Maunlliw yw'r perthi a'r llyngyni gwyrdd o flo-daw

hardd A ierbachyr ha sy'n dawrio'n ddwreus Dros wanner aden-ydd si-dan

OEDFA'R DYCHWELYD

Bore braf oedd bore Sul, Medi'r 20fed, a hynny am fwy nag un rheswm. Roedd heulwen Medi'n llonni calon ond roedd ein haf bach Mihangel yn gyfoethocach o gael y cyfle, wedi misoedd o encilio gorfodol, i ddod ynghyd oddi mewn i furiau'r capel.

Teg dweud mai arbrawf oedd yr oedfa er mwyn gallu cynllunio ar gyfer y dyfodol a rhaid diolch o galon i'r tîm cydwybodol oedd wedi paratoi mor drwyadl i sicrhau fod pawb yn teimlo'n ddiogel o dan amodau'r 'normal newydd'.

Er nad oeddem yn gallu canu'r emynau'n ôl ein harfer, roedd cyfraniad Gwennant ar yr organ yn ychwanegu'n sylweddol at naws arbennig ein myfyrdod. Diolch i Casi am gyflwyno'r thema "Darganfod Ffynnon" ac am ein cymell i gymuno drwy gyfrwng darlleniad, gweddi a sylwadau pwrpasol yn seiliedig ar gyfarfyddiad Iesu â'r wraig o Samaria. Cawsom ein hatgoffa mai hanfod addoli Duw yw i wneud hynny mewn ysbryd a gwirionedd ac mai eilbeth yw'r lleoliad. Wrth gyfarfod â Duw, boed hynny mewn capel, eglwys neu ar ein haelwydydd, rydym yn darganfod "ffynnon o ddŵr bywiol i ddi-sychedu ein bywydau mewnol". Cyffyrddiad hyfryd oedd cais gan ein gweinidog i ni godi llaw ar ein gilydd fel arwydd o gyfeillgarwch a diolchgarwch ein bod wedi cael dychwelyd i Emaus.

Pwy a ŵyr beth a ddaw'n ystod yr wythnosau a'r misoedd sy'n weddill o 2020, ond un peth sy'n sicr, bore braf oedd bore Sul, Medi'r 20fed, a hynny am fwy nag un rheswm.

Eleri Richards

DIOLCH

Mae ein diolch fel eglwys i'n gweinidog, Casi, i'w glywed mor aml ar wefusau aelodau Emaus. Yn wir, mae hi fel chwa o awyr iach, yn cysylltu â ni mewn gwahanol ffyrdd i'n cadw i fynd.

Gwerthfawrogn ei hymdrechion drosom a'i chonsyrn amdanom.

Cofiw'n hefyd am waith aruthrol ein ysgrifennydd hynaws ac ymroddgar. Nid ar chwarae bach mae cadw yr achos yn Emaus i fynd. Mae'n dyled yn enfawr i Gareth ein hysgrifennydd ac i David ein trysorydd gofalus a thrylwyr a swyddogion yr eglwys am eu gwaith clodwiw a diflino ar ein rhan fel aelodau.

Ann a Gareth

***Mae ein diolch yn fawr y mis yma
i Ann a Gareth Roberts
am gasglu a chydlynu'r wybodaeth
ar gyfer y rhifyn yma o'r Negesydd.***

Dylid gyrru'r holl wybodaeth
ar gyfer rhifyn Tachwedd
i Cathrin Williams

e-bost :

cathrin.williams@gmail.com

Ffôn : [01248] 712576

erbyn Hydref 19, fan bellaf.

Neu, os y dymunwch, i'r Negesydd

e-bost :

negesydd@btinternet.com